


‘Mae Cartrefi’n Cyfrif’

Y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Torfaen



2018 – 2021

Cynnwys

<i>Rhagair</i>	2
<i>Crynodeb Gweithredol</i>	3
<i>Cyflwyniad</i>	4
<i>Cyd-destun Strategol</i>	5
Lleol	5
Rhanbarthol	5
Cenedlaethol	5
<i>Gwasanaethau Tai yn Nhorfaen</i>	6
Cartrefi Newydd	6
Mynediad at Dai	6
Digartrefedd a Chyngor ar Dai	6
Cefnogaeth a Chymorth	7
Gwella Cartrefi ac Arbed Ynni	7
Hyfforddiant a Chyflogaeth	7
<i>Blaenoriaethau</i>	10
Pobl	10
Lle	14
Polisi	18
Darpariaeth	22
<i>Casgliad</i>	26
<i>Monitro</i>	26
<i>Atodiadau</i>	27
Atodiad 1 – Cyd-destun Strategol	27
Atodiad 2 - Geirfa	32
Atodiad 3 – Gwasanaethau Tai	35
Atodiad 4 – Gwasanaethau Gwella Tai	37

Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno **Mae Cartrefi'n Cyfrif – Y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Torfaen**, sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyflenwi cartrefi yn Nhorfaen dros y 3 blynedd nesaf.

Mae tai yn un o ofynion mwyaf sylfaenol pob aelwyd ac mae'r galw am gefnogaeth a chymorth yn Nhorfaen wedi parhau i gynyddu mewn blynyddoedd diweddar, gyda mwy o bobl nawr yn ei chael yn anodd i gael cartref diogel a fforddiadwy.

Er gwaethaf yr heriau sy'n cael eu wynebu gan y sector Tai, yn enwedig ar ôl cyflwyniad Diwygiadau Budd-daliadau Lles, mae Torfaen yn parhau i fod yn bositif ac yn benderfynol o fabwysiadu dull rhagweithiol ac arloesol tuag at ddiwallu'r angen am dai.

Mae cyflwyniad Deddf Tai (Cymru), sydd wedi rhoi mwy o ddeddfwriaeth ddatganoledig i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, wedi rhoi mwy o gyfle i ddelio gyda digartrefedd a chyflenwi gwell atebion tai, a thrwy gyfrwng gwaith partneriaeth effeithiol medrwn symud ymlaen gyda'n gweledigaeth o Dorfaen fel rhywle lle gall pawb gael mynediad at ac elwa ar dai fforddiadwy, o ansawdd, mewn amgylchedd diogel.



Aelod Gweithredol ar gyfer Cymunedau, Tai a Gwrth-dlodi



Crynodeb Gweithredol

Mae'r strategaeth hon, sydd wedi ei datblygu gan Fforwm Tai Strategol Torfaen (SHF) yn rhoi gweledigaeth ar gyfer tai yn Nhorfaen am y tair blynedd nesaf.

Ni ellir goramcangyfrif effaith bositif tai, nid yn unig drwy ddarparu cartrefi a gwasanaethau, ond hefyd o ran cynorthwyo a chyfrannu at agendâu polisi ehangach megis addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a helpu i gyflenwi llawer o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae newidiadau gwleidyddol ac economaidd yn ddiweddar wedi gweddnewid y dirwedd dai ac mae penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd wedi creu ansicrwydd arwyddocaol. Nid yw goblygiadau llawn y penderfyniad hwn yn debygol o ddod yn amlwg am beth amser. Mae'r hinsawdd economaidd ansefydlog wedi ei waethygu ymhellach gan fesurau llymder a diwygiadau i fudd-daliadau lles, sydd wedi cael effaith negyddol ar gyflenwi tai a gwasanaethau cysylltiedig.

Gyda mynediad at dai fforddiadwy o ansawdd yn dod yn llawer anoddach, mae mwy o faich wedi ei rhoi ar awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflenwi opsiynau amgen addas. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r SHF wedi parhau i ystyried dulliau newydd ar gyfer cyflenwi gwasanaethau a chroesawu lefelau uwch o waith partneriaeth a rhanbarthol, i sicrhau bod cartrefi a gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu i drigolion Torfaen.

Yn syml, mae'r ddogfen **Mae Cartrefi'n Cyfrif, y Strategaeth Dai Leol ar gyfer Torfaen** yn ymwneud â phobl, lle, polisi a darpariaeth. Mae'n cyfuno ac yn tanlinellu'r heriau a'r cyfleoedd cydweithredu ar draws mudiadau partner i gyflenwi strategaeth dai leol o 2017 hyd at 2020.

Cyflwyniad

Ers lansio'r Strategaeth flaenorol – **Datblygu dyfodol tai gyda'n gilydd: Mewn llymder a thu hwnt** (2012-2017) – bu newidiadau arwyddocaol i Bolisi a Deddfwriaeth Tai; y mwyaf oedd gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014, a roddodd i Gymru ei darn cyntaf o Ddeddfwriaeth Tai wedi ei datganoli.

Mae'r Ddeddf wedi galluogi i Gymru bennu ei dull unigryw ei hun ar gyfer cyflawni atebion tai. Mae hyn wedi arwain at fwy o ganlyniadau cadarnhaol i aelwydydd digartref, ond hefyd wedi creu pwysau ychwanegol ar Awdurdodau Lleol a'u partneriaid. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi rhoi cymorth i wrthbwysio rhai o'r goblygiadau adnoddau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf, ond mae nifer o heriau yn parhau.

Ynghyd â newidiadau mewn polisi, mae effeithiau Diwygiadau Budd-daliadau Lles mewn blynyddoedd diweddar wedi bod yn arwyddocaol i'r sector tai, yn enwedig tai cymdeithasol, gyda chyflwyniad y cymhorthdal ystafell sbâr ac yn fwy diweddar, newidiadau i gyfraddau Lwfans Tai Lleol, yn cynrychioli her ddifrifol i lawer o landlordiaid. At hyn, mae prinder tir ar gyfer tai yn lleol yn gwneud datblygu tai yn fwy ymestynnol a thros amser gallai gyfyngu nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu darparu yn yr ardal.

Serch hynny, mae llawer o gyfleoedd ar gael yn Nhorfaen dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a'r mwyaf arwyddocaol yw Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd â'r nod o roi hwb i ffyniant economaidd ac sy'n cynnwys datblygu Metro De Cymru, a fydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth ledled De Cymru a helpu i adfywio'r cymunedau mwy pellennig yng nghymoedd De Cymru.


I warantu y gall Torfaen ddelio gyda'r heriau'n effeithiol a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd, mae'n bwysig cael Strategaeth Dai Leol gadarn, sy'n darparu gweledigaeth glir ar gyfer cyflenwi gwasanaeth i ddiwallu gofynion presennol ac i'r dyfodol.

Mae **Mae Cartrefi'n Cyfrif** wedi ei datblygu gan yr SHF, mewn ymgynghoriad â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid, sydd â rôl hollbwysig i'r chwarae o ran diwallu anghenion tai a darparu atebion tai cynaliadwy ar gyfer Torfaen.

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, cysylltwch â'r canlynol:

Tîm Strategaeth a Galluogi Tai
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB
01495 742630

Cyd-destun Strategol



Gweler Atodiad 1 i gael y manylion llawn

Gwasanaethau Tai yn Nhorfaen

Cartrefi Newydd

Mae'r SHF yn gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi cartrefi newydd sydd ar gael ar y farchnad agored, drwy'r Cynllun Perchnogaeth Cartref Cost Isel; Help2Own Plus, neu fel tai cymdeithasol a ddyrennir drwy Bartneriaeth Homeseeker. Mae cynllunio effeithiol, adnabod tir addas a defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol wedi arwain at greu mwy na 400 o gartrefi newydd fforddiadwy yn Nhorfaen ers 2011.



Mynediad at Dai

Mae cynyddu mynediad at dai addas a fforddiadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn Nhorfaen ac mae nifer o gynlluniau yn bodoli i gefnogi aelwydydd (**gweler Atodiad 3**).

Mae Gwasanaeth Atebion Tai yr awdurdod lleol yn rhoi cyngor a gwybodaeth benodol ynglŷn â'r opsiynau tai sydd ar gael yn Nhorfaen ac yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat i gynyddu cyfleoedd a mynediad at dai.

Mae partneriaeth Homeseeker yn parhau i wella mynediad at dai cymdeithasol, tra'n sicrhau bod cymorth a chefnogaeth addas ar gael i alluogi tenantiaid i gynnal tenantiaeth yn llwyddiannus.



Digartrefedd a Chyngor ar Dai

Mae'r awdurdod lleol yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd statudol a, drwy roi cyngor helaeth a chymorth, mae'n gweithio i sicrhau bod llai o aelwydydd yn profi digartrefedd.

Gyda Deddf Tai (Cymru) 2014, cafwyd deddfwriaeth ar gyfer newidiadau sylweddol o ran cyflenwi gwasanaethau digartrefedd. Mae'r pwyslais mwy ar rwystro wedi arwain at fwy o ganlyniadau cadarnhaol a gostyngiad yn yr aelwydydd sydd wedi bod angen dyletswydd digartrefedd lawn, ond o ben i ben mae nifer y bobl sy'n gofyn am gyngor a chymorth gyda thai wedi aros yn uchel.

Deddf Tai (Cymru) 2014	2015/16	2016/17
Yn gymwys i gael cymorth, digartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth ⁱ	69	66
Aelwydydd a rwystrowyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref (Adran 66) ⁱⁱ	213	215

Cefnogaeth a Chymorth

Mae rhoi cefnogaeth o ansawdd sy'n galluogi i drigolion feithrin gwytnwch a gwella eu cyfleoedd bywyd hirdymor i'w galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach, yn rhan annatod o ddarparu opsiynau tai cynaliadwy yn Nhorfaen ac yn helpu i ostwng y galw ar wasanaethau cyhoeddus eraill a'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi comisiynu ystod eang o wasanaethau cymorth tai, tra bo landlordiaid partner yn yr SHF hefyd wedi datblygu nifer o gynlluniau a mentrau i sicrhau y gall tenantiaid, ar amrywiol adegau yn eu bywydau, gael yr help a'r gefnogaeth maent eu hangen.

Trwy weithio gyda'n gilydd a defnyddio cyfleoedd ariannu yn effeithiol, mae'r SHF wedi sicrhau bod trigolion Torfaen yn cael amrediad eang o wasanaethau cymorth gan gynnwys cymorth pan fo'i angen, llety gyda chymorth a chymorth cynhwysiant ariannol (**gweler atodiad 3**).

Gwella Cartrefi ac Arbed Ynni

Mae cynnal cartrefi presennol a sicrhau eu bod yn ddiogel yn aros yn flaenoriaeth ac mae nifer o gynlluniau'n bodoli ar hyn o bryd i hyrwyddo'r canlyniadau hyn.

Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) partner wedi buddsoddi mwy na £155m i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru (WHQS) ac wedi gweithio'n galed i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Mae'r awdurdod lleol wedi ategu gwaith LCC trwy ddarparu cynlluniau tebyg i berchnogion tai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Nhorfaen trwy gyfrwng Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaethau a chynlluniau arbed ynni, tra bo Grantiau Gofal a Thrwsio, Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl a Grantiau Addasiadau Ffisegol oll wedi helpu i wella mynediad a goresgyn problemau symudedd i drigolion sy'n cael anhawster i gynnal eu hannibyniaeth (**gweler atodiad 4**).

Hyfforddiant a Chyflogaeth

Mae'r Sector Tai ar hyn o bryd yn gyflogwr mawr yn Nhorfaen ac mae datblygu tai a gwasanaethau tai wedi cefnogi creu nifer o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae prentisiaethau a swyddi wedi eu creu'n uniongyrchol drwy'r broses gaffael gyda datblygiadau tai, tra bo gwaith gwella tai a thwf gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai wedi cynyddu cyfleoedd gwaith yn lleol. At hyn, mae nifer o raglenni sgiliau a chyflogaeth wedi eu datblygu, i alluogi i drigolion gael mynediad at waith a lliniaru effeithiau diwygiadau budd-daliadau lles.

(Mae rhestr lawn o'r partneriaid a'r cynlluniau a'r mentrau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Nhorfaen i'w gweld yn Atodiad 3)

Gwasanaethau Tai – Pwysau a Chyfleoedd


Mae cyflenwi gwasanaethau tai yn Nhorfaen yn parau i fod yn her ac mae pwysau ar hyn o bryd. Serch hynny, mae cyfleoedd sydd angen eu hystyried a'u datblygu, i sicrhau bod gwasanaethau tai yn Nhorfaen yn parhau i fod yn effeithiol a diwallu anghenion y boblogaeth.

Pwysau

- Mae cyfyngiad ar dir i gyflenwi tai annedd preswyl a blaenoriaethau sy'n cystadlu ar gyfer derbyniadau cyfalaf a defnyddio elw cynllunio, wedi lleihau'r nifer o dai fforddiadwy a gyflenwir.
- Mae anawsterau bod yn berchennog tŷ, yn aml yn ymwneud â chael cynhyrchion morgais addas, wedi rhoi pwysau ar ddeiliadaethau tai eraill i ddiwallu'r angen
- Mae achosion dyletswydd digartrefedd lawn wedi gostwng oherwydd y ffocws ar rwystro, ond mae ceisiadau am help yn gyffredinol yn aros yn uchel, gyda theuluoedd yn wynebu anawsterau lluosog
- Mae'r galw am lety dros dro yn dal yn uchel ac mae defnyddio Gwely a Brecwast drud wedi codi
- Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth anghenion mwy cymhleth sydd angen lefelau uwch o gymorth
- Mwy o bwysau ar wasanaethau oherwydd Diwygio Budd-daliadau Lles ac effaith y Cap Budd-daliadau a Chredyd Cynhwysol
- Diffyg cartrefi fforddiadwy, yn enwedig i bobl ifanc sengl a rhai dan 35 oed
- Mae'r galw am gymorth yn aros yn uchel wrth i bobl gael anhawster o ran uwchraddio, trwsio a chynnal a chadw eu cartrefi.
- Mae dileu'r cyllid Grant Cyfalaf Penodol wedi creu ansicrwydd ynglŷn â dyfodol Ardaloedd Adnewyddu Tai
- Mae gan Dorfaen nifer o eiddo hŷn, yn enwedig yng ngogledd y fwrdeistref, sydd angen lefelau uwch o fuddsoddiad
- Er gwaethaf gostyngiadau i gyllid grant, mae'r galw am wasanaethau yn aros yn uchel, gyda phobl angen lefelau penodol a chymhleth o gymorth
- Mae dyraniad adnoddau gan Lywodraeth Cymru ar sail flynyddol yn golygu ei bod yn anodd cynllunio rhaglenni'n strategol
- Gall uwchraddio a gwella systemau databas i fodloni gofynion data gymryd amser a gall fod yn ddrud
- Mae'r data cynhwysfawr sydd ei angen wrth wneud cais am gyllid wedi gwneud ceisio am grantiau yn fwy cymhleth

Cyfleoedd

- Targed Llywodraeth Cymru i ddatblygu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd yng Nghymru, gyda Thorfaen yn cael rhyw £17m o SHG/HFG dros y 4 blynedd nesaf
- Bydd Bargen y Ddinas yn dod â mwy o gyfle i'r ardal ac annog lefelau uwch o fuddsoddiad
- Mewn ymateb i'r diffyg tir sydd ar gael ar gyfer tai annedd, bydd arolwg o ddynodiad safleoedd tir yn cael ei wneud fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd
- Bydd Torfaen yn parhau i wneud cais am gyllid effeithlonrwydd ynni i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi drwy'r llwybrau mwyaf effeithiol ac effeithlon
- Mae Strategaeth Digartrefedd Ranbarthol yn y broses o gael ei datblygu ac mae'r cyfle i gael cydweithrediad ranbarthol rhwng Awdurdodau Lleol a LCC yn cael eu hystyried
- Mae Peilot pobl dan 35 Bron Afon i gefnogi pobl ifanc a effeithir gan newidiadau mewn Budd-daliadau Lles i mewn i hyfforddiant a gwaith i gynyddu cynaliadwyedd tenantiaeth yn llwyddiannus ac mae bellach wedi ei fabwysiadu fel polisi ar gyfer oes y strategaeth hon ac efallai bod potensial i gael dulliau tebyg gan LCC eraill yn Nhorfaen
- Mae'r arolwg diweddar o'r gwasanaeth Atebion Tai wedi arwain at strwythur newydd arfaethedig a fydd yn diwallu'n well anghenion ein cwsmeriaid o ran gwasanaethau rhwystrol
- Bydd yr arolwg blyneddol o'r cynllun busnes Homeseeker yn sicrhau ein bod yn parhau i gael partneriaeth effeithiol rhwng yr awdurdod lleol a LCC lleol a bod systemau'n aros yn addas i'r pwrpas.
- Bydd y Ganolfan Gofal Critigol newydd yng Nghwmbrân yn moderneiddio gwasanaethau iechyd yn lleol a dod â mwy o gyfleoedd gwaith i'r ardal a lefelau uwch o fuddsoddiad
- Cydweithrediad parhaus gyda'r fenter Mewn Un Lle a defnyddio cyllid tai yn arloesol i ddelio â'r pwysau ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles





**Mae 91,075 o bobl yn byw yn
Nhorfaen**



**17.4% o
ddisgyblion
ysgol â hawl i
brydau ysgol am
ddim**



**32% o gartrefi
gyda rhywun â
problem iechyd
hirdymor
neu anabledd**



29% o drigolion heb gymwysterau

Mae Torfaen yn gartref i groestoriad eang o bobl, gydag amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd amrywiol ac anghenion a dyheadau amrywiol o ran tai. Wrth gynllunio ar gyfer y galw am dai yn y dyfodol, mae'n bwysig cydnabod y gwahaniaethau hyn a chymryd i ystyriaeth sut byddant yn effeithio gallu pobl i gael cartref.

Mae ardaloedd o amddifadiad arwyddocaol y Nhorfaen, gyda 22.4% o blant yn byw ar aelwyd incwm isel a 16.5% o drigolion mewn oedran gweithio yn derbyn budd-dal.ⁱⁱⁱ Mae hyn yn anochel wedi golygu bod y galw am atebion tai fforddiadwy a chymorth priodol yn aros yn uchel.

Mae prisiau tai nawr bum gwaith yn uwch nag incwm yn Nhorfaen, gan wneud bod yn berchen ar gartref y tu hwnt i allu ariannol llawer o drigolion, yn enwedig pobl sy'n prynu am y tro cyntaf. Mae hyn wedi achosi mwy o ddibyniaeth ar y farchnad rhentu i ddiwallu'r galw am dai.

Cymhariaeth o fforddiadwyedd prynu yn ôl awdurdod lleol, 2016^{iv}

	Pris Tŷ ar Gyfartaledd	Enillion Blynnyddol ar Gyfartaledd	Cymhareb pris tŷ / enillion
Torfaen	£143,956	£28,357	5.1

Mae gan Dorfaen sector rhent preifat cymharol fychan (8.5%) ac er gwaethaf ymdrechion i'w wneud yn fwy hygyrch, nid yw wedi tyfu fel y rhagwelwyd ac mae'n parhau i fod yn opsiwn drud, gan ei wneud yn anfforddiadwy i lawer o aelwydydd.

Cymhariaeth o fforddiadwyedd rhentu preifat yn ôl awdurdod lleol, 2016^v

	Rhent wythnosol preifat ar gyfartaledd	Enillion wythnosol ar gyfartaledd	Pris rhentu preifat fel % o enillion
Torfaen	£123.28	£548	22.5%

Tai cymdeithasol, felly, yw'r unig opsiwn hyfyw ar gyfer rhai aelwydydd. Ac eto, mae Diwygiadau i Fudd-daliadau Lles yn ddiweddar wedi golygu nad oes hyd yn oed yn y sector tai cymdeithasol yr un lefelau o sicrwydd a fodolai unwaith, gyda chap ar fudd-daliadau, cymhorthdal ystafell sbâr a gostyngiadau mewn budd-dal tai (i rai dan 35) yn cael canlyniadau arwyddocaol.

Mae aelodau'r Fforwm Tai Strategol wedi gwneud gwaith i liniaru effeithiau'r newidiadau hyn, gan gynnwys cyfleoedd i bobl ifanc sengl rannu cyd-denantiaethau mewn tai cymdeithasol presennol, cynlluniau cartrefi cychwynnol, peilot dan 35 oed a defnyddio taliadau budd-daliadau tai dewisol, ond mae angen gwaith pellach o hyd.

Bydd gwella amgylchiadau economaidd trigolion yn cynyddu eu hopsiynau o ran cael cartref. Trwy gyflwyno nifer o raglenni gwrth-dlodi mae gan yr SHF record lwyddiannus o greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi drwy fuddsoddi mewn tai yn lleol. Anogir a datblygir hyn ymhellach drwy gyflenwi Cynllun Asesiad Lles Torfaen. Felly bydd trigolion yn elwa'n uniongyrchol o'r buddsoddiad y mae tai yn ei wneud yn yr economi lleol.

Mae gan Dorfaen boblogaeth sy'n heneiddio a bydd y gofynion gofal a chymorth yn newid wrth iddyn nhw barhau i heneiddio. Mae'n bwysig mabwysiadu dull cyfannol tuag at ddiwallu anghenion trigolion, gyda gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd i gyflenwi canlyniadau cadarnhaol ar draws iechyd, tai a gofal cymdeithasol, sy'n galluogi i bobl fyw'n annibynnol yn hirach.

Mae gan Dorfaen eisoes nifer o bartneriaethau llwyddiannus gydag iechyd, tai a gofal cymdeithasol; y mwyaf llwyddiannus yw'r rhaglen **Mewn Un Lle**. Mae'r rhaglen yn dwyn at ei gilydd gynrychiolydd o Fwrdd Prifysgol Aneurin Bevan, 5 Awdurdod Lleol Gwent a 9 LCC i wella'r ddarpariaeth o lety a gwasanaethau gofal i rai gydag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth, trwy gyfrwng atebion gofal sydd wedi eu cynllunio'n strategol ac yn gydweithredol, gan sicrhau bod gofynion llety yn y dyfodol yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n gydweithredol. Dylid annog llwyddiant y bartneriaeth hon a dylid hyrwyddo cydweithredu tebyg.


Wrth i amgylchiadau pobl newid ac wrth iddynt ei chael yn anodd i gael llety addas i ddiwallu eu gofynion unigol, mae cyflenwi opsiynau amgen yn parhau'n flaenoriaeth. Drwy gydweithredu'n effeithiol gyda phartneriaid, ffocws ar atebion hirdymor a gwaith i gyflwyno mesurau rhwystro, bydd y gwasanaeth tai yn cefnogi cyflenwi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygu atebion tai hirdymor sy'n diwallu anghenion pobl Torfaen.

Beth rydym eisiau ei gyflawni

- Datblygu mwy o dai fforddiadwy a chynyddu'r amrediad o gynhyrchion ac atebion tai sydd ar gael sy'n addas i bobl ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau
- Pobl i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gwasanaethau cefnogi
- Trigolion gyda dewis o dai addas mewn ardal lle maent eisiau byw
- Pobl i gael mynediad at gymorth, cyngor a gwybodaeth o ansawdd am dai
- Gwasanaethau sy'n gwbl hygyrch ac sy'n cymryd amgylchiadau ac anghenion unigol i ystyriaeth
- Darparu cymorth cysylltiedig â thai i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r difreintiedig
- Creu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, prentisiaethau a gwaith yn yr economi lleol

Sut byddwn yn cyflawni hyn


- Monitro ac arolygu'r Polisi Homeseeker yn barhaus i sicrhau ei fod yn hyblyg, yn briodol, yn parhau i fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn hygyrch i bawb ac yn cefnogi'r rhai sydd mewn mwyaf o angen
- Gweithio gyda phartneriaid i ystyried atebion tai amgen i drigolion lleol
- Gwell dealltwriaeth o anghenion pobl sy'n agored i niwed yn Nhorfaen a gweithredu Strategaeth Cefnogi Pobl
- Mabwysiadu fframwaith cynhwysol ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau
- Darparu gwasanaethau tai sy'n effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnig gwerth da am arian
- Dodi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth graidd y gwasanaeth, gan alluogi i adborth defnyddwyr gwasanaeth yrru gwelliannau parhaus
- Gwell mynediad at gyngor a gwybodaeth cynhwysiant ariannol i helpu i leihau tlodi, a chefnogi cyflenwad Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Torfaen
- Parhau i weithio'n gydweithredol ar draws rhaglenni tai, iechyd a gofal cymdeithasol
 - Gweithredu darganfyddiadau arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru o LCC



Lle



Tybir bod 10% o gartrefi yn Nhorfaen
mewn tloedi tanwydd




Mae'r cartref yn ffactor allweddol o ran lles person, gyda chyflwr eiddo, lleoliad a lefelau hygrychedd yn cael effaith arwyddocaol ar iechyd a lles. Felly mae sicrhau bod eiddo yn ddiogel, yn sicr ac yn cael eu cynnal yn dda yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru wedi sicrhau bod tai cymdeithasol yn Nhorfaen yn cael ei gynnal i safon uchel, ond mae amodau yn y sector preifat yn gymysg. Mae darpariaeth gwasanaethau i gynorthwyo perchnogion i gynnal eu cartrefi, lleihau eu perygl o dlodi tanwydd a gwneud newidiadau ac addasiadau felly'n hollbwysig o ran lliniaru'r peryglon a chreu arbedion ac effeithlonrwydd cost yn yr hirdymor. Mae cysylltiadau rhwng tai gwael ac iechyd wedi eu hen sefydlu ac mae'r effeithiau'n cael eu teimlo gan wasanaethau cyhoeddus eraill sy'n gorfod delio gyda'r canlyniadau.

Wrth i bobl heneiddio, mae eu hanghenion tai yn anochel yn newid ac yn aml mae angen addasu neu symud i lety mwy addas. Mae hyn yn effeithio trigolion ar draws pob deiliadaeth, ond yn arbennig perchnogion-ddeiliaid (61% o bawb dros 65 oed) sydd ar hyn o bryd yn cyfrif am 15% o ymgeiswyr ar y Gofrestr Dai Gyffredin.

Mae perchnogaeth-ddeiliadaeth yn parhau i fod y ddeiliadaeth fwyaf yn Nhorfaen felly er mwyn diwallu dyheadau darpar brynwyr, bydd yn bwysig parhau i hybu'r cynllun Help2Own a dod â safleoedd tai newydd, ond mae hyn yn parhau i fod yn her ac mae angen dulliau arloesol drwy'r amser.

Mae lleoliad hefyd yn ystyriaeth wrth gynllunio tai, gyda'r wybodaeth am dai yn dangos dymuniad clir ar gyfer de'r fwrdeistref.



Mae poblogrwydd y de wedi arwain at brisiau tai'n codi a chostau rhentu uwch, ac felly mae mwy o bobl yn gwneud cais i Homeseeker am dai cymdeithasol.

Mae parhau i ehangu'r Sector Rhentu Preifat a gweithio'n agos gyda darpar landlordiaid yn hanfodol, i ddarparu atebion tai amgen ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu proffil a mynediad at dai rhentu preifat yn Nhorfaen.

Mae'n bwysig hefyd defnyddio'r tai presennol yn y ffordd orau, yn enwedig tai gwag. Mae'r eiddo yma'n asedau gwerthfawr a allai ddarparu cartrefi sydd fawr eu hangen yn Nhorfaen.

Mae ffigurau'n awgrymu bod aelwydydd sy'n byw mewn llety ar rent yn aml yn cael eu hanfanteisio o gymharu â pherchnogion-ddeiliaid, gyda'r sawl sy'n rhentu yn cyfrif am **80%** o'r holl aelwydydd di-waith^{vi} yn Nhorfaen (**59%** cymdeithasol a **21%** rhentu preifat), tra nad oes gan **51%** o denantiaid cymdeithasol gar y gallent ei ddefnyddio, o gymharu â dim ond 13% o berchnogion-ddeiliaid.^{vii} Felly mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu cydraddoldeb cyfle ar draws holl ddeiliadaethau tai. Fodd bynnag, ni ellir cyflawni hyn ar ei ben ei hyn ac mae angen i'r Gwasanaeth Tai, sydd eisoes yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o wahanol adrannau sector cyhoeddus a chyfundrefnau barhau i gydweithredu a dylanwadu ar y polisïau.

Yr hyn rydym angen ei gyflawni

- Cael mwy o fuddsoddiad sector preifat a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd datblygu i gael adfywio ar draws cymunedau
- Cydweithredu â phartneriaid allweddol i gynyddu'r cyflenwad
- Cynyddu argaeledd eiddo o ansawdd uchel, fforddiadwy i'w rhentu
- Gwellu cyflwr tai ledled y fwrdeistref
- Gwell effeithlonrwydd ynni eiddo i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd a lles yn gyffredinol

Sut byddwn yn cyflawni hyn

- Gwneud y defnydd mwyaf a'r gorau o gyfleoedd ariannu Adnewyddu Sector Preifat i ymgymryd â gwelliannau i eiddo yn seiliedig ar ardaloedd mewn mannau lle mae amddifadiad
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wella cartrefi presennol a chymunedau
- Gweithio mewn partneriaeth i wneud y mwyaf o gyflenwi tai fforddiadwy drwy'r Grant Tai Cymdeithasol a'r Grant Cyllid Tai
- Parhau i hyrwyddo'r cynllun Help2Own
- Gweithio gyda landlordiaid sector preifat i gynyddu argaeledd eiddo trwy gyflenwi'r strategaeth sector rhentu preifat
- Cydweithredu i gael tir er mwyn darparu tai fforddiadwy
- Gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer gwaith a hyfforddiant, gan gymeradwyo defnyddio cadwyni cyflenwi lleol a fframweithiau caffael
- Parhau i wneud cais am gyllid er mwyn gwneud gwaith effeithlonrwydd ynni yn Nhorfaen
- Monitro effeithiau gwasanaethau tai ac ymgymryd â gwaith gwireddu budd-daliadau



Polisi



Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Torfaen

Public Services Board

TORFAEN
Homeseeker



supporting**people**

supporting independence

Empty  Hopes

help2own
plus



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

I ddiwallu'r llawer o anghenion tai yn Nhorfaen yn effeithiol, mae'n hanfodol cael polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Gyda'r dirwedd wleidyddol a deddfwriaethol yn newid drwy'r amser yng Nghymru a'r DU, mae'r angen i fod yn hyblyg yn hollbwysig. Mae effaith Diwygio Budd-daliadau Lles wedi bod yn arbennig o arwyddocaol.

Mae Torfaen, ar y cyd â'i phartneriaid, wedi gweithio'n galed i gyflwyno amrediad o gynlluniau a mesurau a fydd yn helpu i leihau effaith y newidiadau hyn. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys ehangu'r Gwasanaeth Cynhwysiant Ariannol, creu Swyddog Atebion Tai Iechyd Meddwl penodol, newid y Polisi Homeseeker i sicrhau bod ymgeiswyr yn gwneud y mwyaf o ddeiliadaethau a bod tenantiaethau'n gynaliadwy a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau tai penodol ar gyfer pobl ifanc.

O ganlyniad uniongyrchol i'r polisïau strategol allweddol a'r gweithdrefnau hyn, mae Torfaen wedi elwa o fuddsoddiad arwyddocaol.

Mae'r tablau canlynol yn nodi peth o'r buddsoddiad a dderbyniwyd yn Nhorfaen dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

	2015/16	2016/17
Grant Tai Cymdeithasol	£4m	£4.4
Cyllid Preifat	£2.9m	£3.2m
Arbed Ynni	----	£744,776
Grant Cefnogi Pobl	£3.4m	£3.4m
Grant Cyfalaf Penodol	£643,192	£643,192
Grant Sipsiwn a Theithwyr	£1.3m	£9,100
Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	£1.4m	£3.4m
Grant Rhwystro Digartrefedd	£168,995	£91,800
Benthyciad Tai yn Gartrefi	£69,692	£231,800

Mae llwyddiant Torfaen yn deillio o barodrwydd i addasu a chroesawu dulliau amgen a chydweithredol o weithio.

Trwy'r dull cydweithredol a fabwysiadwyd ledled Torfaen, megis SHF, Grŵp Llywio Homeseeker, Fforwm Cynhwysol Cefnogi Pobl, Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl a fforymau eraill, mae'n hawdd arolygu a diwygio penderfyniadau polisi yn gyson ac wedi caniatáu inni barhau gyda gwasanaeth sy'n addas i'r pwrpas. Mae datblygiad parhaus data cadarn o gwmpas tai wedi golygu bod holl bolisïau yn seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r galw am dai.


Bydd yr holl bolisïau yn parhau i gael eu hadolygu a'u diweddarau gan adlewyrchu newidiadau gwleidyddol a statudol.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Gwella ansawdd a safon tai sector preifat gyda buddsoddiad Ardal Adnewyddu Cymdogaethau
- Gwneud y defnydd gorau o gartrefi gwag a chyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth Eiddo Gwag
- Cyflawni nodau ac amcanion y Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy i leihau tlodi tanwydd ac aneffeithlonrwydd ynni ar aelwydydd, gan wneud y mwyaf o a defnyddio cyfleoedd buddsoddi ac ariannu
- Bod yn bartneriaid allweddol wrth gyflawni Strategaethau ehangach Torfaen
- Cyflenwi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd

Sut byddwn yn cyflawni hyn


- Parhau i weithredu a monitro'r Fenter Cartrefi Gwag a'r cynllun benthyciadau Tai yn Gartrefi
- Monitro'r Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy a'r Strategaeth Eiddo Gwag
- Datblygu Strategaeth Sector Rhentu Preifat newydd
- Datblygu Strategaeth Digartrefedd newydd (ranbarthol)
- Cyfrannu tuag at gyflenwi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol
- Gweithio gyda landlordiaid sector preifat i wella safonau eiddo
- Bwydo gwybodaeth i fentrau Adfywio Lleol
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynllunio i'r Dyfodol a Rheoli Datblygu i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy drwy Ganllawiau Cynllunio Ategol
- Datblygu ymhellach y Fforwm Tai Strategol i wneud y mwyaf o'r cyfle i wella gwasanaethau
- Adnabod a gwneud y mwyaf o'r holl gyfleoedd buddsoddi a'r opsiynau ariannu
- Arolygu a gwneud defnydd mwy creadigol o'r stoc bresennol i ddiwallu anghenion newydd
- Cyfrannu tuag at y fforymau perthnasol ar gyfer amrywiol Strategaethau Torfaen, gan gynnwys yr arolwg o bolisi statws Treftadaeth y Byd Blaenafon a strategaethau perthnasol eraill
- Arolygu'r cynllun Homeseeker a strategaethau perthnasol eraill
- Cysylltu'n rhagweithiol gyda chydweithwyr cynllunio i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu hadnabod yn gywir.



Darpariaeth

2011

2016



Mae darparu atebion tai sy'n diwallu anghenion trigolion Torfaen yn parhau i fod yn brif ffocws yr SHF. Mae gan Dorfaen record lwyddiannus o gyflawni opsiynau tai a bydd yn ystyried cyfleoedd posibl ar gyfer dulliau newydd ac arloesol.

Newid arwyddocaol i wasanaethau cyhoeddus yw lleihau a dileu cyllid grant, o blaid benthyciadau sydd angen eu talu'n ôl. Mae Llywodraeth Cymru yn dileu'r Grant Cyfalaf Penodol yn enghraifft dda. Gyda'r effeithiau anferth y gall amodau tai gwael eu cael ar agendâu polisi ehangach, mae sicrhau darpariaeth cymorth gwella tai yn hollbwysig.

Yn ddiweddar, adolygodd Partneriaeth Homeseeker y Polisi Homeseeker i gymryd i ystyriaeth y newidiadau mewn anghenion a galwadau ymgeiswyr. Mae Homeseeker yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i groestoriad o drigolion sydd eisiau tai fforddiadwy.

Mae Help2Own Plus, cynllun Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel y Cyngor sy'n parhau i gefnogi prynwyr tro cyntaf sy'n cael trafferthion i brynu tai a rhenti fforddiadwy, wedi ei adolygu gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd ac opsiynau tai canolraddol.

Mae'r agwedd hon tuag at gyflenwi tai fforddiadwy yn cael ei chefnogi ymhellach dros y 4 blynedd nesaf trwy gyllid ychwanegol LIC (£17m), sydd wedi ei ddyrannu i Dorfaen i gynyddu cyflenwad tai fforddiadwy ac i gynorthwyo gyda chyrraedd targed LIC o 20,000 o gartrefi fforddiadwy.

Mae'r Gwasanaeth Tai yn bidio'n rheolaidd am gyllid i gyflenwi gwasanaethau newydd a phresennol yn Nhorfaen a bydd yn parhau i ddefnyddio'r holl ffynonellau sydd ar gael iddo. Mae llwyddiannau yn ddiweddar gyda chyllid effeithlonrwydd ynni wedi golygu bod nifer y cartrefi sydd mewn tldi tanwydd yn Nhorfaen yn gostwng ac mae'r effeithiau ehangach y mae cartrefi gydag aneffeithlonrwydd tanwydd yn eu cael ar iechyd, cyfoeth a lles cyffredinol trigolion yn cael eu lleihau'n llwyddiannus neu'n cael eu dileu.

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl yn parhau i ddyrannu cyllid grant i ddarparu cymorth tai ledled Torfaen, gan helpu i sicrhau bod anghenion cymorth tai pobl yn cael eu diwallu'n ddigonol a bod pwysau'n cael eu lleihau ar wasanaethau statudol eraill a fyddai fel arall yn gorfod ymdopi â'r canlyniadau.

Mae gwaith arwyddocaol wedi ei wneud i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at a chynnal cartrefi. I liniaru rhai o effeithiau Diwygio Lles, mae Tai Cymunedol Bron Afon, ar y cyd â'r awdurdod lleol, wedi lansio cynllun peilot dan 35 oed, sy'n gweithio gyda phobl ifanc i ddarparu ystod o opsiynau a fydd yn eu helpu i gynnal tenantiaeth.

Er gwaethaf peth o'r pwysau sy'n bodoli nawr, bydd y Gwasanaeth Tai yn parhau i ystyried dulliau newydd o ddiwallu'r angen am dai ledled Torfaen, fel bod mwy o opsiynau tai yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol.

Yr hyn rydym eisiau ei gyflawni

- Gwneud y mwyaf o'r cyllid ar gyfer buddsoddi mewn tai
- Mwy o dai i bobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywydau
- Parhau i ddatblygu'r Sector Rhentu Preifat
- Datblygu mathau priodol o dai i ddiwallu anghenion grwpiau amrywiol o gwsmeriaid

Sut byddwn yn cyflawni hyn

- Datblygu a chyflwyno bidiau i wneud y mwyaf o incwm ar gyfer yr awdurdod lleol a'i bartneriaid
- Parhau i gydweithredu gyda phartneriaid a gwasanaethau cyhoeddus eraill i gynllunio'n well ar gyfer gofynion tai yn y dyfodol
- Ystyried sut gellir cael gwelliannau i gefnogi tenantiaid sector preifat
- Defnyddio'r rhaglen IOP i ddatblygu cartrefi priodol ar gyfer pobl ag anghenion a gofynion penodol
- Datblygu perthynas effeithiol gyda chydweithwyr lechyd a Gofal Cymdeithasol i ddeall yn well anghenion tai carfannau penodol o bobl

Casgliad

Bydd y Gwasanaeth Tai a'i bartneriaid yn parhau i weithio tuag at ddiwallu anghenion tai trigolion Torfaen ac mae'n parhau i fod yn ymroddedig i gyflenwi atebion tai addas ar gyfer y fwrdeistref, gyda chyflenwad nodau **Mae Cartrefi'n Cyfrif** yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd dros y tair blynedd nesaf i warantu cyflenwi effeithiol.

Serch hynny, mae effeithiau tai annigonol neu dai gwael yn eang a rhaid cydnabod hyn, gyda lefelau uwch o waith partneriaeth i gyflenwi atebion cynaliadwy i drigolion Torfaen sy'n cymryd agwedd gyfannol tuag at ddiwallu eu hanghenion a hyrwyddo eu lles yn gyffredinol.

Monitro

Caiff y strategaeth hon ei monitro'n rheolaidd gan y Fforwm Tai Strategol a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu a gaiff ei arolygu bob blwyddyn. Bydd y cynllun gweithredu yn cysylltu gyda'r blaenoriaethau strategol a chynlluniau busnes gweithredol ein partneriaeth a rhai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau bod dull cyd-gysylltiedig a chyfannol yn cael ei fabwysiadu ar gyfer diwallu'r angen am dai yn Nhorfaen.

Atodiadau

Atodiad 1 – Cyd-destun Strategol

Cenedlaethol

Deddf Tai (Cymru) 2014

Y gyntaf o'i bath yng Nghymru, nod y Ddeddf yw gwella cyflenwad, ansawdd a safon tai yng Nghymru, trwy ystod o ddyletswyddau a fydd yn arwain at fwy o dai o ansawdd a gwasanaethau gwell sy'n gysylltiedig â thai. Bydd cynnwys y nodau hyn mewn cyfraith yn helpu i warantu bod gwasanaethau tai yng Nghymru yn cael eu cyflenwi mewn dull cyd-gysylltiedig a chynhwysfawr sy'n cyfrannu'n gadarnhaol i les trigolion. Cefnogir y Ddeddf gan God Canllawiau, sy'n rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i staff awdurdod lleol, i'w tywys wrth ymarfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â dyraniadau a digartrefedd.

Strategaeth Dai Genedlaethol

Cyhoeddwyd y strategaeth yn 2010, ac mae'r Strategaeth Dai Genedlaethol 'Gwella Bywydau a Chymunedau' yn adnabod amrywiol newidiadau a heriau a oedd yn cael eu wynebu yng Nghymru a'r dull y byddai'n ei fabwysiadu i ddelio gyda nhw. Er gwaethaf polisi arwyddocaol a newidiadau i'r rhaglen ers ei lansio, mae'r dull a fabwysiadwyd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn cyd-daro gydag amcanion Deddf Tai (Cymru):

- Darparu mwy o dai o'r math iawn a chynnig mwy o ddewis
- Gwella tai a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi
- Gwella gwasanaethau a chymorth sy'n gysylltiedig â thai

Cynllun Digartrefedd 10 Mlynedd i Gymru

Yn 2009, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Digartrefedd 10 Mlynedd, a oedd yn nodi rhai o'r egwyddorion allweddol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw â phan gafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol, gyda mwy o bwyslais ar rwystro digartrefedd a ffocws cryf ar anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, gan eu doddi wrth galon y broses.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cyflwynwyd y Ddeddf Rhentu Tai i symleiddio'r broses o rentu a gwella mynediad at y sector. Roedd yn disodli amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth a oedd yn aml yn gymhleth gydag un fframwaith cyfreithiol syml a chlir. Newid arwyddocaol a gyflwynwyd gan y Ddeddf oedd disodli holl denantiaethau a thrwyddedau presennol gyda dim ond dau fath o gontract deiliadaeth:

- Contract sicr – wedi ei fodelu ar y denantiaeth sicr bresennol a gynigir gan Awdurdodau Lleol
- Contract safonol – wedi ei fodelu ar y denantiaeth fyrddaliol sicr a ddefnyddir yn bennaf yn y sector rhentu preifat.

Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015

Mae'r Gorchymyn yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth ddarparu llety i rywun sy'n ddigartref, neu sydd wedi eu bygwth â digartrefedd, dan Ran 2

(Digartrefedd) Deddf Tai (Cymru) 2014. Er mwyn bodloni telerau'r gorchymyn, rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fodlon bod y llety a ddarparwyd ganddo yn cael ei ystyried fel un addas i ddibenion cyflawni a gweithredu ei ddyletswyddau ar ddigartrefedd.

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

Cyflwynwyd y Ddeddf Cartrefi Symudol i esbonio ac amddiffyn yn well hawliau trigolion sy'n byw mewn Cartrefi Symudol, tra hefyd yn ceisio gwella rheoleiddio a rheoli safleoedd Cartrefi Symudol yng Nghymru.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cyflwynwyd y Ddeddf i wella bywyd pobl a'u gofalwyr, trwy newid sut caiff eu hanghenion eu hasesu a sut cyflwynir gwasanaethau, fel bod gan bobl fwy o lais wrth benderfynu ar y gofal a'r cymorth maent yn eu derbyn. Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo defnyddio help ychwanegol sydd ar gael yn y gymuned, i leihau cymorth ffurfiol, wedi ei gynllunio. Bydd cyflenwi atebion mwy cynaliadwy yn gofyn am fwy o waith partneriaeth gan weithio ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys tai ac iechyd, i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth maent ei angen i arwain bywydau positif a llawn.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae cyflwyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ymgymryd â'u swyddogaethau mewn ffordd sy'n gynaliadwy a bydd yn gwarantu bod unrhyw benderfyniadau a gymerir yn cymryd i ystyriaeth yr effaith bosibl ar bobl a chymunedau nawr ac yn y dyfodol. Bydd yn disgwyl iddyn nhw:

- Weithio'n well gyda'i gilydd
- Cynnwys pobl gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau
- Edrych ar yr hirdymor ynghyd â chanolbwyntio ar nawr
- Cymryd camau i rwystro problemau rhag gwaethygu – neu eu rhwystro rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ceisio gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gamdriniaeth a thrais. Rhai o'r newidiadau allweddol dan y Ddeddf yw:

- Gwella trefniadau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o, a rhwystro, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Cyflwyno dull seiliedig ar anghenion o ran datblygu strategaethau a fydd yn sicrhau cyfeiriad strategol cryf a mwy o atebolrwydd
- Sicrhau meddiant lefel strategol, drwy benodi Cynghorydd Gweinidogol a fydd â rôl yn cynghori Gweinidogion Cymru a gwella cydweithio rhwng asiantaethau ar draws y sector hwn
- Gwella cysondeb, ansawdd a chysylltu darpariaeth gwasanaethau yng Nghymru.

Strategaeth Tlodi Plant 2015

Yn 2010, cyflwynodd Cymru y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a oedd yn deddfu ei hymrwymiad i ddelio â thlodi plant a rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant ar gyfer Cymru. Amcanion y strategaeth yw:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith
- Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel

- Lleihau anghydraddoldeb iechyd, addysg ac economaidd ymhlith plant
- Creu economi cryf sy'n helpu i ddelio â thlodi a lleihau tlodi ymhlith pobl sy'n gweithio.
- Cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i wneud y mwyaf o incwm y teulu

Roedd y Mesur hefyd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i gefnogi'r agenda dlodi trwy bennu eu hamcanion eu hunain ar gyfer delio gyda thlodi plant.

Rhanbarthol

Strategaeth Ddiggartrefedd Ranbarthol Gwent (Drafft)

Un o ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) yw llunio Strategaeth ar Ddiggartrefedd ac mae Torfaen ar hyn o bryd yn arwain ar ddatblygu strategaeth ranbarthol ar gyfer Gwent. Fel rhanbarth, mae Gwent yn wynebu llawer o'r pwysau a'r problemau tebyg mewn perthynas â delio gyda diggartrefedd, felly bydd agwedd ranbarthol yn annog cydweithio a hyrwyddo arferion gorau, fel bod pob awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n llwyddiannus.

Cynllun Strategol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent 2017 - 2020

Dan y fframwaith newydd ar gyfer gweinyddu'r Rhaglen Cefnogi Pobl, mae angen Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i sefydlu Cynllun Strategol Rhanbarthol sy'n rhoi trosolwg o fwriadau comisiynu ar draws y rhanbarth. Mae Cynllun Strategol Gwent yn rhoi crynodeb o fwriadau comisiynu'r rhanbarth a dadansoddiad bwlch rhanbarthol o wasanaethau cymorth ar sawl traws-awdurdod. Mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent wedi ei ffurfio o ardaloedd Awdurdodau Lleol Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

Tîm Rhanbarthol VAWDASV Gwent

Mae Tîm Rhanbarthol VAWDASV Gwent yn gweithio ledled Gwent i ddelio gyda'r problemau'n ymwneud â cham-drin domestig, cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, gwneud cysylltiadau strategol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol a chefnogi Awdurdodau Lleol i ddatblygu eu strategaethau lleol a rhanbarthol eu hunain.

Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Rhanbarth Gwent

Mae gan yr asesiad hwn rôl ganolog o ran hyrwyddo lles, cefnogi pobl ar y cyfle cynharaf i gynnal eu hannibyniaeth ac i helpu pobl ledled Gwent i wella eu bywydau.

Mae'r asesiad yn cyflwyno lefel yr angen ar draws y rhanbarth a hefyd yn darparu ymateb rhanbarthol i'r angen a adnabuwyd, ynghyd â chynnig y camau nesaf sydd eu hangen i ddiwallu'r anghenion hynny.

Lleol

Cynllun Corfforaethol 3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynllun Corfforaethol 3 yw dogfen strategol allweddol Cyngor Torfaen ac mae'n nodi sut caiff gwasanaethau eu cyflenwi a sut caiff adnoddau eu targedu i wella cymunedau a chreu dyfodol cynaliadwy. Tair blaenoriaeth y Cynllun yw:

- Torfaen lân a gwyrdd
- Codi cyrhaeddiad addysgol
- Cymorth i drigolion mwyaf agored i niwed Torfaen

Strategaeth a Pholisi Adnewyddu Tai

Mae'r strategaeth yn nodi polisi'r Cyngor ar gyfer adnewyddu'r sector preifat yn Nhorfaen ac yn ceisio:

- Gwella ansawdd a chyflwr tai sector preifat yn Nhorfaen.
- Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy drwy adfywio a datblygu amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Strategaeth Sector Rhentu Preifat (Drafft)

Mae sector rhentu preifat cadarn a chydnerth yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo marchnad dai leol fywiog a chynnig ystod o opsiynau tai i drigolion. I sicrhau bod Torfaen yn cynnal a hyrwyddo'r sector, bydd y strategaeth yn:

- Gwella ansawdd a chyflenwad llety yn y sector rhentu preifat.
- Cefnogi trigolion i gael cartrefi fforddiadwy, o ansawdd da ac wedi eu rheoli'n dda yn y sector rhentu preifat.
- Datblygu partneriaethau cryfion i gefnogi twf y sector rhentu preifat.

Mae Pob Cartref yn Cyfrif – Strategaeth Eiddo Gwag 2013 – 2018

Mae'r strategaeth hon yn ffurfiol ac yn parhau i hyrwyddo ymrwymiad y Cyngor i ddelio gyda chartrefi gwag ledled y fwrdeistref, gan bennu camau gweithredu i leihau'r nifer o gartrefi gwag a'r problemau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r Strategaeth yn anelu at leihau nifer y cartrefi gwag drwy:

- Sefydlu perthynas bositif a gwaith partneriaeth gyda pherchnogion
- Ymgymryd ag agwedd orfodi gadarn mewn achosion lle nad yw'r perchennog yn cydweithredu, neu os na ellir cael hyd i'r perchennog
- Gweithio'n agos gyda chymunedau a phartneriaid
- Hyrwyddo'r materion yn ymwneud â chartrefi gwag i holl drigolion Torfaen er mwyn gwella ymwybyddiaeth

Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr

Rhoddodd Rhan 3 Deddf Tai (Cymru) 2014 ddyletswydd r Awdurdodau Lleol i ymgymryd ag Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr a gwneud darpariaeth addas lle'r oedd yr asesiad yn nodi angen nas diwallir. Ymgymeryd ag asesiad Torfaen yn 2016 gan adnabod cymuned gynyddol o Sipsiwn a Theithwyr, a fydd angen gwaith monitro parhaus i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol ac yn y dyfodol yn parhau i fod yn ddigonol. Mewn ymateb i'r twf hwn, mae safle newydd wedi ei ddatblygu yn cyffinio'r safle Sipsiwn a Theithwyr presennol i ddiwallu'r angen a adnabuwyd.

Asesiad Marchnad Dai Leol

Mae ymgymryd ag arolygon o bryd i'w gilydd o'r angen am dai a chael dealltwriaeth dda o'r farchnad dai leol yn hanfodol ar gyfer cynllunio darpariaeth dai yn strategol ac mae'n sicrhau bod yr awdurdod lleol yn parhau i gyflenwi'r math iawn o dai yn y lleoliadau mwyaf addas. Gan ddefnyddio data o amrywiol ffynonellau, mae'r asesiad yn adnabod y tueddiadau presennol a'r amcanestyniadau yn Nhorfaen hyd at 2021.

Strategaeth cefnogi pobl (Drafft)

Mae Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu gwasanaethau cymorth cysylltiedig â thai ar gyfer pobl sy'n agored i niwed. Mae Strategaeth Cefnogi Pobl Torfaen yn pennu'r cyfeiriad ar

gyfer y rhaglen, gan sicrhau yn y pen draw bod y rhaglen yn Nhorfaen yn blaenoriaethu gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion ein cymunedau, yn cynnig gwerth am arian ac yn ymateb yn gadarnhaol i heriau amgylchedd wleidyddol gythryblus.

Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar gyfer Torfaen 2016 - 2021

Nod y strategaeth yw gwella cymorth a chefnogaeth ariannol i drigolion Torfaen ar draws pedwar maes blaenoriaeth: Pobl, Lle, Darpariaeth a Pholisi. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau bod trigolion yn medru delio gyda'r heriau economaidd ac ariannol maent yn eu wynebu.

Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021)

Y Cynllun Datblygu Lleol yw'r ddogfen allweddol ar gyfer cyflenwi cartrefi a seilwaith newydd yn Nhorfaen. Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd yw cyflenwi twf wedi'i gynllunio, ac sy'n gynaliadwy, yn adlewyrchu rôl a swyddogaeth benodol aneddiadau Torfaen, trwy "rwydwaith o gymunedau integredig". Bydd yn darparu ar gyfer ardal unigryw, fywiog a ffyniannus lle mae gan y bobl y sgiliau, yr wybodaeth a'r cyfle i gael ansawdd bywyd gwell mewn cymunedau diogel, iach a ffyniannus gyda chyfleusterau lleol hygyrch.

Asesiad Lles Lleol (Drafft)

Defnyddir yr Asesiad Lles i gynllunio ar draws y sector cyhoeddus i gael y Dorfaen rydym eisiau ei gweld a bodloni'r amcanion lles cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Mae'r asesiad, a gaiff ei ddefnyddio i bennu ein Hamcanion Lles Lleol, wedi ei ddatblygu trwy ymgynghori'n helaeth gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gasglu eu syniadau nhw ar les yr ardal, nawr ac i'r dyfodol. Y dair thema sy'n dod o'r asesiad yw:

- Economi
- Iechyd
- Amgylchedd Naturiol

Cynlluniau Corfforaethol / Busnes LCC Partner

Tra bo'r Cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am ddatblygu'r Strategaeth Dai Leol newydd, ni ellir cyflawni ei nodau a'i hamcanion heb gymorth a chydweithrediad ein partneriaid allweddol. Rydym wedi ceisio arolygu a bwydo i mewn yr amrywiol strategaethau a'r cynlluniau busnes gweithredol blynyddol a ddatblygwyd gan aelodau'r fforwm dai strategol.

Atodiad 2 - Geirfa

Tai Fforddiadwy

Tai i ddiwallu anghenion aelwydydd na fedrent gael cartref ar y farchnad agored

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ymddygiad sy'n cael effaith negyddol ar fwynhad person neu gymuned o'u hardal leol

Perygl Categori 1

Perygl difrifol lle mae angen i awdurdod lleol weithredu i adfer sefyllfa yn unol â'r System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai

Gosodiadau Seiliedig ar Ddewis

Cynllun i ddyrannu tai cymdeithasol, sy'n rhoi dewis i'r ymgeisydd o ba eiddo mae ganddynt ddiddordeb yn ei rentu

Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl

Cyllid llywodraeth a roddir i Awdurdodau Lleol i ddarparu addasiadau a gwasanaethau i drigolion anabl, gan eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach

Demograffeg

Nodweddion poblogaeth e.e. oedran, rhywedd, ethnigrwydd

Effeithlonrwydd Ynni

Cyngor a chynhyrchion sy'n medru helpu i wneud eiddo yn fwy ynni-effeithlon

Cynhwysiant Ariannol

Helpu pobl i gael y sgiliau a'r hyder i reoli eu harian a lleihau dyledion

Tlodi Tanwydd

Pan na fedr aelwyd fforddio cadw eu cartref yn gynnes am gost rhesymol (pan fyddant yn gwario mwy na 10% o'u hincwm ar gostau ynni)

Help2Own

Cynllun Cyngor Torfaen i helpu aelwydydd gael mynediad i'r sector perchennog-ddeiliad

Homeseeker

Y gofrestr dai gyffredin ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol yn Nhorfaen

Cymdeithasau Tai

Cyrff sy'n darparu tai cymdeithasol am rent fforddiadwy ar sail di-elw (a elwir hefyd yn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig)

System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai

Pecyn asesu risg a ddefnyddir i asesu peryglon posibl i iechyd a diogelwch deiliaid eiddo preswyl yng Nghymru a Lloegr

Rhent Canolraddol

Mae rhent canolraddol yn rhoi cyfle i bobl rentu cartref am lai na chyfradd y farchnad.

Hwb Landlordiaid

Partneriaeth rhwng Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Torfaen sy'n cyfarfod yn chwarterol i roi cyngor a gwybodaeth i landlordiaid y sector preifat

Cynllun Datblygu Lleol

Dogfen gynllunio strategol hirdymor yn arwain datblygiad a defnydd tir mewn ardal awdurdod lleol penodol yng Nghymru

Asesiad Marchnad Dai Leol

Astudiaeth fanwl o ardal a/neu ranbarth sy'n rhoi gwybodaeth fanwl ar yr angen am dai nawr ac yn y dyfodol

Partneriaeth Strategol Leol

Corff ambarél yn cynnwys y Cyngor, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, grwpiau gwirfoddol a grwpiau sector preifat i wella cydraddoldeb bywyd mewn cymunedau

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Arweinwyr cyrff sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n dod at ei gilydd i weithredu ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar y dinasyddion

Ardaloedd Cynnydd Ehangach Haen Is

Ardal o ryw 1500 o bobl a ddefnyddir i fesur amddifadiad trwy Fynegai Amddifadiad Lluosog Cymru

Ardal Adnewyddu Cymdogaeth

Mae ardaloedd adnewyddu yn gwella amodau tai a bywyd mewn ardaloedd penodol ac yn delio gydag ystod eang o amodau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd cysylltiedig

Asesiad Adnewyddu Cymdogaeth

Asesiad o ardal cyn ymgymryd â gwaith adfywio neu adnewyddu

Arolwg Cyflwr Stoc y Sector Preifat

Arolwg o gyflwr eiddo sector preifat mewn ardal

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Cyrff sy'n darparu tai cymdeithasol am rent fforddiadwy ar sail di-elw (a elwir hefyd yn Gymdeithasau Tai)

Rhannu Ecwiti

Mae cynlluniau rhannu ecwiti yn rhoi benthyciad ecwiti i brynwyr i'w roi tuag at y gost o brynu eiddo, sy'n medru rhoi hwb i faint y blaendal a chynyddu eu cyfle o gael morgais

Rhannu Meddiant

Prynu eiddo drwy landlord Cymdeithasol Cofrestredig neu'r Cyngor

Grant Tai Cymdeithasol

Grant a roddir i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu tai am rent neu berchnogaeth cost isel sy'n diwallu anghenion a blaenoriaethau lleol

Grant Cyfalaf Penodol

Grant gan Lywodraeth Cymru a roddir i Awdurdodau Lleol i ariannu gwaith a wneir mewn Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaethau

Gweithdrefn Asesu Safonol (SAP)

Y dull a argymhellir ar gyfer mesur effeithlonrwydd ynni eiddo

Grant Rhaglen Cefnogi Pobl

Rhaglen wedi ei sybsideiddio gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i gyd-gysylltu darpariaeth cymorth cysylltiedig â thai i grwpiau sy'n agored i niwed

Cymunedau Cynaliadwy

Cymunedau sy'n diwallu anghenion trigolion presennol ac yn y dyfodol ac sy'n rhoi cyfle a dewis mewn meysydd megis tai, iechyd, addysg a swyddi

Deiliadaeth

Y trefniadau ariannol a deddfwriaeth dan y rhain y mae gan rywun yr hawl i fyw mewn eiddo e.e. perchennog-ddeiliad, rhentu preifat a rhentu cymdeithasol

TYPSS (Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen)

Gwasanaeth aml-asiantaeth/aml-ddisgyblaeth sy'n cymryd agwedd gyfannol tuag at ddiwallu anghenion pobl ifanc 16 i 21 oed sy'n agored i niwed

Diwygio Budd-daliadau Lles

Diwygio'r system fudd-daliadau bresennol i helpu pobl fynd i waith. Gelwir hefyd yn 'Ddiwygiadau Lles'

Safon Ansawdd Tai Cymru

Safon y mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i holl landlordiaid cymdeithasol ei chyrraedd i wella eu heiddo erbyn 2012

Mynegai Amddifadiad Lluosog Cymru

Y mesur swyddogol o amddifadiad yng Nghymru, sy'n mesur Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol, yr Amgylchedd Ffisegol a Thai

Comisiwn Williams

Comisiwn Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i weld sut cyflwynir gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

Atodiad 3 – Gwasanaethau Tai

Cartrefi Newydd

- Help2Own Plus
- Tai Cymunedol Bron Afon
- Cartrefi Melin
- Grŵp Pobl
- Linc

Mynediad at Dai

- Partneriaeth Homeseeker – Tai Cymunedol Bron Afon, Melin, Charter, Linc, Hafod, United Welsh, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Tŷ Rosser Gwyn
- Lion's Court
- Seren Living
- Cynllun Bond Solas
- Holmes and Castle

Digartrefedd a Chyngor ar Dai

- Gwasanaeth Atebion Tai Torfaen
- Be Independent
- Cyngor ar Bopeth
- Mortgage Rescue (United Welsh)
- Shelter Cymru

Cymorth a Chefnogaeth

- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Llety â Chymorth Bron Afon
- Own Two Feet (Bron Afon)
- Swyddogion Diogelwch Cymunedol Bron Afon
- Cynghorwyr Ariannol Bron Afon a Melin
- Tîm Arian Clyfar– Hafod
- Tîm Cyngor ar Arian - Linc
- Hwb Landlordiaid
- Linc Care

Gwella Cartrefi ac Effeithlonrwydd Ynni

- Ardaloedd Adnewyddu Cymdogaethau
- Cyllid Arbed

- Gofal a Thrwsio
- Therapi Galwedigaethol a Gwasanaeth Addasiadau Bron Afon
- Gwasanaeth Personau Anabl
- Grant Addasiadau Ffisegol (PAG)
- Cartrefi Gwag
- Cartrefi Gwag Cymru (United Welsh)
- Benthyciad Gwella Cartrefi Pont-y-pŵl
- Benthyciad Gwella Cartref

Hyfforddiant a Chyflogaeth

- Clwb Swyddi Bron Afon
- Bron Afon – Academi Hyfforddiant That Works
- Melin Works
- Y Prentis
- Prosiect Together – United Welsh

Atodiad 4 – Gwasanaethau Gwella Tai

	2011 / 2012	2012 / 2013	2013 / 2014	2014 / 2015	2015 / 2016	2016 / 2017	2017/18
Grantiau Adnewyd du Tai	79	96	82	54	110	81	46
Gwariant Adnewyd du Tai	£1,120,190	£847,010.49	£656,491.72	£644,273	£643,192	£643,192	£500,000
Grantiau Cyfleuster au i Bobl Anabl	117	124	144	141	50	46	39

ⁱ Aelwydydd sy'n gymwys, digartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth (adran 75) yn ôl angen blaenoriaeth a math o aelwyd, casglu data digartrefedd, Llywodraeth Cymru, 2016

ⁱⁱ Rhwystro Digartrefedd yn ôl Ardal a Mesur (Adran 66), Digartrefedd Statudol: Dangosyddion Allweddol 2017

ⁱⁱⁱ Hawlwyr budd-daliadau DWP – Grŵp cleientiaid oedran gwaith – prif hawlwydd budd-daliadau – heb ei addasu'n dymhorol (Awst 2016), % yn gyfran o boblogaeth breswyl ardal 16-64, Nomis

<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157402/report.aspx#tabwab> [Cyrchwyd 21/03/2017]

^{iv} Ffynhonnell: Cofrestrfa Dir, Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion (ONS), Swyddogion Rhent Cymru

^v Ffynhonnell: Cofrestrfa Dir, Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion (ONS), Swyddogion Rhent Cymru

^{vi} Cyfrifiad 2011 – Deiliadaeth yn ôl gweithgaredd economaidd yn ôl oedran – Personau Cyfeirnod Aelwyd, Cyfrifiad Nomis

https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/DC4601EW/view/1946157402?rows=c_tenhuk11&cols=c_ecopuk11 [Cyrchwyd 24/03/2017]

^{vii} Cyfrifiad 2011 – Deiliadaeth yn ôl car neu fan at eu defnydd yn ôl crefydd Personau Cyfeirnod Aelwyd, Cyfrifiad Nomis

https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/LC4204EW/view/1946157402?rows=c_tenhuk11&cols=c_carsno [Cyrchwyd 24/03/2017]